BWYD A DIOD CYMRU
YMWELIAD DATBLYGU
MASNACH

# DUBLIN, IRELAND

17-20 Medi 2019

## Prif Sectorau

Bwyd a Diod

## Amserlen

**Dydd Mawrth 17 Medi**
Cyrraedd Dulyn

**Dydd Mercher 18 Medi**
Briffio'r Farchnad ac ymweld â siopau

**Dydd Iau 19 Medi**
Rhaglen cwrdd â'r prynwr, digwyddiad rhwydweithio â'r diwydiant

**Dydd Gwener 20 Medi**
Amser ychwanegol ar gyfer cyfarfodydd, dychwelyd i Gymru

## MYND Â CHYMRU I'R BYD

**Dyddiad cau:**
21 Mehefin 2019

I gael ffurflen gais anfonwch e-bost at: **angharad.evans@bic.innovation.com**

OGL WG38115 / © Hawlfraint y Goron 2019



Llun gan Cathal Mac an Bheatha ar Unsplash

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Cynnig

Hoffem eich gwahodd i fod yn rhan o Ymweliad Datblygu Masnach a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru i Iwerddon.

## Pam Iwerddon?

- Marchnad allforio lewyrchus ar gyfer nwyddau'r DU ar garreg eich drws!
- Marchnad Saesneg ei hiaith o 4.6 miliwn o bobl, yr un parth amser, gerllaw er hwylustod rheoli
- Fframwaith rheoleiddio a chyfreithiol tebyg gyda chysylltiadau trafnidiaeth da
- Mae 20% o allforion bwyd a diod Cymru yn mynd i Iwerddon
- Marchnad o ddefnyddwyr addysgedig a soffistigedig
- Y llynedd gwnaeth economi Iwerddon dyfu bron i 7% (Swyddfa Ystadegau Canolog)
- Twf mewn opsiynau bwyd iach, gwell cyfleustra, brandiau cwrw meicro, label preifat
- Marchnad allforio gychwynnol neu arbrofol ddelfrydol

## Y Gost

Mae'r gost i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu Masnach pwrpasol iawn hwn yn cael ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'r gost fydd **£750 + TAW y person***. Mae hynny'n cynnwys:

- Cymorth cyn yr ymweliad, gan gynnwys briffio llawn
- Anfon samplau i Ddulyn
- Bydd manylion a brand eich cwmni yn cael eu cynnwys yn y catalog o gynhyrchwyr a anfonir at brynwyr a dosbarthwyr posibl
- Briffio'r farchnad, digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr, digwyddiad rhwydweithio â'r diwydiant, ymweliadau â siopau
- Llety gwely a brecwast am 3 noson yn Nulyn drwy asiantaeth deithio enwebedig Llywodraeth Cymru
- Cymorth a chyngor cyn yr ymweliad, yn ystod yr ymweliad ac ar ôl yr ymweliad

Bydd angen i chi drefnu eich taith eich hun i Iwerddon, gan dalu'r costau teithio, er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf i chi.

*Yn amodol ar y meini prawf cymhwystra. Mae'r cynnig hwn ar gael i ddau gynrychiolydd o bob cwmni. Bydd gofyn i unrhyw gynrychiolwyr ychwanegol dalu'r gyfradd lawn heb gymhorthdal – ar gael ar gais. Dylai ymgeiswyr nodi fod y cymorth a ddarperir gan y cyllid hwn yn cyfrif fel cymorth gwladwriaethol de minimis yn ôl diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd.